Papur y Bwrdd

02 Hydref 2014

Teitl y Papur	**Diweddariad ar Gyllid 2014-15**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 65.14**
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell ac Andrea Morgan

Pwrpas y Papur:	Rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15.
Argymhelliad:	Nodi cynnwys y papur a chymeradwyo'r cyllidebau a'r penderfyniadau a wnaed gan y Tîm Gweithredol.
Angen Penderfyniad:	Cymeradwyo penderfyniadau cyllideb y Tîm Gweithredol.

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd gwneud defnydd effeithiol o'n hincwm yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau prin ar gyflawni canlyniadau â blaenoriaeth **Effaith ar yr Economi**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn dangos gwerth am arian i'r cwsmeriaid yr ydym yn codi tâl arnynt **Effaith ar y Gymuned**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn sicrhau'r manteision mwyaf i'n cymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**: amherthnasol

Mater

1. Darparu diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Awst 2014.

Crynodeb

2. Yn y cyfarfod diwethaf, adroddwyd ar ein sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer 2014-15 a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Bwrdd. Roedd y Gyllideb Agoriadol ar gyfer 2014-15 a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn gyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn.

Cefndir

Sefyllfa'r Gyllideb Gyffredinol ar gyfer 2014-15

3. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd:

   - Cynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar sefyllfa cyllideb 2014-15 ac ar yr amserlen ar gyfer cymeradwyo ein dyraniad Cymorth Grant ar gyfer 2015-16;

   - mae'r Cyfarwyddiaethau wedi cwblhau ymarfer Rhagweld Chwarter 1 manwl;

   - Rydym wedi cynnwys y newidiadau i'r Gyllideb Agoriadol a gymeradwywyd gan y Bwrdd mewn perthynas â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi i Arbed (£3 miliwn), Cronfa Bontio Cyfoeth Naturiol (£1 miliwn), a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (£3.6 miliwn) ar gyfer buddsoddi yn rhaglen gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd.

4. Ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd mae ein Tîm Gweithredol wedi nodi a chymeradwyo newidiadau eraill i'r gyllideb.

   - Mae yna bwysau ychwanegol o £2.5 miliwn ar y gyllideb. Y prif eitemau yw dyraniadau ar gyfer costau staff (£0.6 miliwn), ailstocio *P ramorum* (£0.4 miliwn), lesi cyllid ar gerbydau fflyd (£0.3 miliwn) ac arwyddion corfforaethol (£0.2 miliwn).

   - Gwneir yn iawn am y pwysau hyn gydag incwm ychwanegol, neu arbedion a nodwyd yn ein cyllidebau cyfredol, sy'n werth £3.6 miliwn. Mae hyn yn cynnwys incwm ychwanegol o goed (£2.5 miliwn), cyllid a gariwyd ymlaen o 2013-14 (£0.6 miliwn) ac arbedion o gyllidebau Cyfarwyddiaethau Chwarter 1 (£0.5 miliwn).

   - O ganlyniad, mae gennym £1.1 miliwn o warged. Mae'r Tîm Gweithredol wrthi'n asesu dau gynnig pwysau heb eu cyllido sy'n ymwneud â cherbydau fflyd a pheirianneg coedwigaeth.

5. Mae'r elfen heb ei dyrannu o'r gyllideb gyfalaf agoriadol (£0.8 miliwn) wedi'i dyrannu bellach ac yn cynnwys buddsoddiad mewn TGCh (£0.2 miliwn), cyfarpar coedwigaeth (£0.3 miliwn) a chyfarpar labordy (£0.1 miliwn).

Perfformiad Ariannol ym mis Awst 2014

6. Mae crynodeb o'n sefyllfa gyllidebol ar gael yn Atodiad A.

Y pwyntiau allweddol yw:

- Mesurir perfformiad ariannol ar hyn o bryd yn erbyn sefyllfa'r gyllideb agoriadol fel y cytunwyd arni gan y Tîm Gweithredol ar 2 Medi.

- Roedd y gwariant ar ddiwedd mis Awst yn £62.5 miliwn o gymharu â tharged o £63.5 miliwn, tanwariant o £1.0 miliwn (1.6%). Y prif reswm am yr amrywiannau, er enghraifft yr amrywiant yn y Gyfarwyddiaeth Bontio, yw amseriad y gwariant ac nid yw'n arwydd o orwariant mewn perthynas â'r gyllideb am y flwyddyn gyfan.

- Mae incwm (heb gynnwys Cymorth Grant) yn 1.2% yn uwch na'r targed ar ddiwedd mis Awst, gydag incwm gwirioneddol o £44.3 miliwn o gymharu â tharged o £43.8 miliwn, amrywiant o £0.5m. Derbyn Ffioedd Opsiynau gan ddatblygwyr ar gyfer prosiectau Ynni Gwynt sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

- Mae perfformiad talu cyflenwyr (97%) yn parhau i fod yn dda iawn ac yn uwch na tharged Swyddfa'r Cabinet.

Rhagolygon Diweddaraf

7. Ar hyn o bryd, mae'r Cyfarwyddiaethau yn cynnal adolygiad o sefyllfa eu cyllidebau fel rhan o Adolygiad Cyllideb Chwarter 2, gan sicrhau nad ydym yn mynd yn uwch na'n targed. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn a'r effaith ar y sefyllfa ariannol gyffredinol yn cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol ym mis Hydref.

<u>Risgiau</u>

8. Mae yna risg o hyd y bydd rhaglen fuddsoddi cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd wedi tanwario ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru i ddwyn cyllid ymlaen ar gyfer prosiectau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru dros y ddwy flynedd nesaf (2014-15 i 2015-16). Gyda'r prosiectau hyn yn cael eu tynnu o'r rhaglen fuddsoddi cyfalaf, rydym yn awyddus i gyflwyno prosiectau newydd a fydd yn cynyddu ein lefel o or-raglennu. Mae hyn yn bwysig iawn, gan y bydd llawer iawn o'r rhaglen gyfalaf yn digwydd yn ystod ail hanner y flwyddyn.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

9. Nod y papur hwn yw nodi'r goblygiadau ariannol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2014-15.

Cyfathrebu

10. Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiad wedi'u hadrodd i'r Tîm Gweithredol yn ystod mis Awst, ac yn fanylach i dimau'r Cyfarwyddiaethau unigol.

11. Byddwn yn cyflwyno system Gyllid ac Adnoddau Dynol newydd ar 1 Rhagfyr 2014 i ddisodli tair system y cyrff blaenorol. Rydym wedi paratoi cynllun hyfforddi a chyfathrebu sylweddol i sicrhau y bydd y system yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

12. Amherthnasol.

Atodiad
Atodiad A – Adroddiad Rheoli Cyllideb Awst 2014